Arolygiad dan Adran 10
Deddf Arolygiadau Ysgolion 1996

Ysgol Abercaseg
Bethesda
Gwynedd
LL55 3PL

Rhif yr Ysgol: 6612126

Dyddiad yr Arolygiad: 27/02/06

gan

Wil Williams
67644

Dyddiad Cyhoeddi: 14/04/06

Dan rif contract Estyn: 1109805

Diben Estyn yw gwella ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:

* ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir neu a ddefnyddir gan awdurdodau addysg lleol (AALlau);
* ysgolion cynradd;
* ysgolion uwchradd;
* ysgolion arbennig;
* unedau cyfeirio disgyblion;
* ysgolion annibynnol;
* addysg bellach;
* dysgu oedolion yn y gymuned;
* gwasanaethau cymorth ieuenctid;
* AALlau;
* addysg a hyfforddiant athrawon;
* dysgu yn y gwaith;
* cwmnïau gyrfaoedd; ac
* elfennau addysg, arweiniad a hyfforddiant y Ganolfan Byd Gwaith.

Mae Estyn hefyd:

* yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
* yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygiadau.

Cymerwyd pob gofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gsi.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

Ⓗ **Hawlfraint y Goron 2006 Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad.**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol. O dan Ddeddf Arolygiadau Ysgolion 1996, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad am ddim i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl heb fod yn fwy na chost atgynhyrchu ar eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad.

Arolygwyd Ysgol Abercaseg fel rhan o raglen genedlaethol o arolygiadau ysgolion. Diben arolygu yw nodi nodweddion da a diffygion mewn ysgolion er mwyn iddynt wella ansawdd yr addysg a gynigir a chodi'r safonau a gyflawnir gan eu disgyblion. Bwriedir i arolygu pob ysgol o fewn cylch chwe blynedd hefyd i roi mwy o wybodaeth i rieni am ysgol eu plentyn.

Cynhaliwyd yr arolygiad o Ysgol Abercaseg rhwng 27/02/06 a 01/03/06. Comisiynwyd yr arolygiad, gan dîm annibynnol o arolygwyr, a arweinwyd gan Wil Williams. Comisiynwyd yr arolygiad gan Estyn, sef corff statudol sy'n annibynnol, ond a ariennir gan, Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Roedd yn ofynnol i'r tîm adrodd ar y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion, ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol, ansawdd yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth a'r cyfraniad a wneir gan yr ysgol at ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol ei disgyblion.

Mae'r raddfa pum pwynt a ddefnyddir i gynrychioli'r holl farnau arolygu yn yr adroddiad hwn fel a ganlyn:

Gradd 1	da gyda nodweddion rhagorol
Gradd 2	nodweddion da a dim diffygion pwysig
Gradd 3	nodweddion da yn gorbwyso diffygion
Gradd 4	rhai nodweddion da, ond diffygion mewn meysydd pwysig
Gradd 5	llawer o ddiffygion pwysig

Mae yna dri math o arolygiad.

Ar gyfer **pob** arolygiad, mae yna adroddiad ysgrifenedig ar saith cwestiwn allweddol.

Ar gyfer arolygiadau **byr**, nid oes adroddiadau pwnc.

Ar gyfer arolygiadau **safonol**, mae adroddiadau ar chwe phwnc hefyd.

Ar gyfer arolygiadau **llawn**, mae adroddiadau ar yr holl bynciau hefyd.

Mae Estyn yn penderfynu ar y math o arolygiad a gaiff ysgol, yn bennaf ar sail ei pherfformiad yn y gorffennol. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn cael arolygiad safonol. Caiff pob ysgol arbennig, uned cyfeirio disgyblion ac unrhyw ysgolion newydd neu ysgolion wedi'u huno arolygiad llawn.

Cafodd yr ysgol hon arolygiad **safonol.**

Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd ac yn y blaen. Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Sector cynradd:

Blwyddyn	D	B 1	B 2	B 3	B 4	B 5	B 6
Oedrannau	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Sector uwchradd:

Blwyddyn	B 7	B 8	B 9	B 10	B 11	B 12	B 13	B14
Oedrannau	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18	18-19

Mae'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn ymdrin â phedwar cyfnod allweddol fel a ganlyn:

Cyfnod allweddol 1	Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11

Cynnwys	Tudalen

Cyd-destun 1

Crynodeb 2

Argymhellion 6

Safonau

Cwestiwn allweddol 1: Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni? 7

Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant 9

Cwestiwn allweddol 2: Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu? 9

Cwestiwn allweddol 3: Pa mor dda y mae'r profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach? 10

Cwestiwn allweddol 4: Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr? 12

Arweinyddiaeth a rheolaeth 14

Cwestiwn allweddol 5: Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth strategol? 14

Cwestiwn allweddol 6: Pa mor dda y mae'r arweinwyr a'r rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau? 15

Cwestiwn allweddol 7: Pa mor effeithlon yw'r arweinwyr a'r rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau? 16

Safonau a gyflawnir mewn pynciau a meysydd dysgu 17
Dan bump oed 17
Cymraeg 20
Mathemateg 21
Technoleg gwybodaeth 21
Daearyddiaeth 22
Cerddoriaeth 22

Ymateb yr ysgol i'r arolygiad 23

Atodiadau

A Gwybodaeth sylfaenol am yr ysgol 24
B Data a dangosyddion ysgol 24
C Canlyniadau asesu'r Cwricwlwm Cenedlaethol 25
Ch Sail dystiolaeth yr arolygiad 25
D Cyfansoddiad a chyfrifoldebau'r tîm arolygu 26

Cyd-destun

Natur y darparwr

1. Lleolir Ysgol Abercaseg ym mhentref Bethesda a daw'r disgyblion o'r pentref ac o'r gymdogaeth gyfagos. Mae'r ardal yn Gymreig ei hiaith a'i diwylliant ac mae bron i ddau draean o'r disgyblion yn siarad Cymraeg gartref.

2. Mae 106 o ddisgyblion llawn amser ar gofrestr yr ysgol ynghyd â 32 o blant meithrin rhan-amser. Fe'u haddysgir gan chwe athrawes llawn amser, dwy ran-amser, dwy weinyddes feithrin a phedair cymhorthydd dysgu.

3. Disgrifir yr ardal fel un sy'n ddifreintiedig yn economaidd a chymdeithasol. Mae 28% o'r disgyblion gyda'r hawl i dderbyn cinio di-dâl sydd yn uwch na'r ganran sirol a chenedlaethol.

4. Yn ôl yr Asesiad Sylfaen, mae cyrhaeddiad y disgyblion yn amrywio'n fawr pan gychwynnant yn yr ysgol, gyda nifer arwyddocaol ohonynt â chyrhaeddiad isel. Mae 11% o'r disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, sydd yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol ac mae pedwar ohonynt â datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig.

5. Ers yr arolygiad diwethaf yn Ionawr 2000, bu cynnydd arwyddocaol yn nifer y disgyblion. Penodwyd y pennaeth i'w swydd yn Ionawr 2000.

Blaenoriaethau a thargedau'r ysgol

6. Mae blaenoriaethau a thargedau'r ysgol am y cyfnod 2005-2006 yn cynnwys:

   - adeiladu ar y safonau uchel sydd eisoes yn bodoli yn yr ysgol;
   - datblygiad ymhellach y defnydd o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu fel medr allweddol;
   - gwella safonau gwaith ysgrifenedig i dda iawn;
   - trefnu i arbenigwyr priodol i gwblhau asesiadau risg o safle'r ysgol.

Crynodeb

Tabl o'r graddau a ddyfarnwyd

7. Roedd barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan-arfarnu yn cyd-fynd â barn y tîm arolygu ym mhob un o'r saith Cwestiwn Allweddol.

Cwestiwn allweddol		Gradd arolygu
1	Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?	1
2	Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?	1
3	Pa mor dda y mae'r profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?	1
4	Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr?	1
5	Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth strategol?	1
6	Pa mor dda y mae'r arweinwyr a'r rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?	1
7	Pa mor effeithlon yw'r arweinwyr a'r rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?	1

Safonau

Graddau ar gyfer safonau mewn pynciau a arolygwyd

8. Mae safonau cyflawniad yn y gwersi a arolygwyd fel a ganlyn:

Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
50%	50%	0%	0%	0%

9. Mae safonau cyflawniad plant dan bump oed fel a ganlyn:

Meysydd dysgu	Gradd
Iaith, llythrennedd a chyfathrebu	Gradd 2
Datblygiad personol a chymdeithasol	Gradd 1
Datblygiad mathemategol	Gradd 1
Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd	Gradd 1
Datblygiad creadigol	Gradd 1
Datblygiad corfforol	Gradd 1

10. Mae safonau cyflawniad yn y meysydd dysgu a'r pynciau a arolygwyd fel a ganlyn:

Pynciau	Cyfnod Allweddol 1
Cymraeg	Gradd 2
Mathemateg	Gradd 1
Technoleg gwybodaeth	Gradd 1
Daearyddiaeth	Gradd 1
Cerddoriaeth	Gradd 2

11. Mae ansawdd cyffredinol y ddarpariaeth addysgol ar gyfer plant dan bump oed yn briodol i'w hanghenion ac mae'r plant yn gwneud cynnydd da tuag at Ganlyniadau Dymunol ar gyfer Dysgu Plant.

12. Mae'r cynnydd a wna'r disgyblion yn ystod eu hamser yn yr ysgol yn rhagorol. Gwna'r disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol gynnydd da o fewn eu gallu a'u hoedran.

13. Mae'r safonau a gyflawnir gan blant dan bump oed a disgyblion Cyfnod Allweddol 1 yn y medrau allweddol mewn iaith a chyfathrebu, mathemateg a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu, yn rhagorol.

14. Mae gallu dwyieithog y disgyblion yn dda. Erbyn diwedd Blwyddyn 2, daw dysgwyr y Gymraeg yn ddefnyddwyr hyderus o'r iaith ac mae'r disgyblion rheini sydd â'r Gymraeg yn famiaith iddynt yn dangos cynnydd da yn eu gafael o'r Saesneg.

15. Ar ddiwedd Blwyddyn 2 yn 2005, roedd cyrhaeddiad y disgyblion ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. O'u cymharu ag ysgolion tebyg o ran y ganran o ddisgyblion yn derbyn prydau ysgol di-dâl, roedd perfformiad yr ysgol yn y 25% uchaf.

16. Gwna'r disgyblion gynnydd rhagorol yn eu dysgu ac yn eu medrau personol a chymdeithasol. Mae'r mwyafrif helaeth yn ymdrechu'n galed yn y gwersi, yn canolbwyntio'n ddwys ar eu tasgau ac yn defnyddio'u hamser yn effeithiol.

17. Mae medrau creadigol disgyblion o bob oedran, yn rhagorol.

18. Mae safonau ymddygiad ym mhob dosbarth yn rhagorol gyda'r disgyblion yn ymddwyn yn gyfrifol ac yn gwrtais ac ystyriol â'i gilydd. Cyfranna hyn yn helaeth tuag at greu amgylchedd dysgu dymunol sy'n rhoi cyfle i bob disgybl ffynnu.

19. Mae cyfartaledd presenoldeb disgyblion dros y flwyddyn yn 93% sydd ychydig yn is na'r canrannau lleol a chenedlaethol. Mae prydlondeb mwyafrif helaeth y disgyblion yn dda er bod cnewyllyn bychan yn cyrraedd yr ysgol ychydig yn hwyr yn y boreau.

20. Mae ymwybyddiaeth y disgyblion o faterion cyfleoedd cyfartal yn dda. Mae eu gwybodaeth o amrywiaeth mewn cymdeithas ynghyd â'r parch a'r empathi a ddangosant tuag at bobl o gefndir diwylliannol a chrefyddol gwahanol i'w cefndir hwy, yn rhagorol.

Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant

21. Barnwyd ansawdd yr addysgu fel a ganlyn:

Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
52%	48%	0%	0%	0%

22. Mae perthnasau clos rhwng yr athrawon a'r disgyblion. Mae gan athrawon wybodaeth drylwyr o'r pynciau a addysgant a chynlluniant y gwersi'n fanwl gan ofalu bod gweithgareddau addas i ddiwallu anghenion pob disgybl.

23. Mae'r cyd-gynllunio manwl sydd rhwng yr athrawon a'r cymorthyddion yn cyfrannu'n arwyddocaol tuag at ansawdd uchel yr addysgu.

24. Mae'r addysgu yn y sesiynau neilltuo ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, yn effeithiol iawn.

25. Pan fo nodweddion rhagorol i'r addysgu, mae cyflwyniadau'r athrawon yn ddiddorol a dychmygus a'r tasgau yn ysgogi diddordeb a chymhelliant y disgyblion. Mae disgwyliadau uchel o ran cyflawniadau ac ymddygiad ac mae ymroddiad cryf i hyrwyddo iaith raenus ac estynedig.

26. Mae gweithdrefnau rhagorol ar gyfer asesu holl bynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol ac ar gyfer cofnodi cyflawniadau'r disgyblion.

27. Mae'r targedau personol a bennir i bob disgybl yng Nghyfnod Allweddol 1 yn arwain at gyflawniadau uwch ac yn hyrwyddo gallu'r disgyblion i hunanasesu eu gwaith.

28. Mae ansawdd adroddiadau blynyddol i rieni'n dda.

29. Mae'r ysgol yn ymateb yn dda iawn i anghenion y disgyblion ac yn cynnig mynediad cyfartal i gwricwlwm eang a chytbwys. Cyfoethogir y cwricwlwm gan nifer helaeth o weithgareddau allgyrsiol ac ymweliadau addysgol.

30. Mae ymrwymiad yr ysgol i wella'r medrau sylfaenol trwy gynnal cynlluniau Iaith a Chwarae a chynlluniau Llythrennedd a Rhifedd Teulu, yn nodwedd ragorol o'r ddarpariaeth.

31. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer hyrwyddo datblygiad personol, ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn rhagorol, ac yn cyfrannu'n sylweddol at wella eu cyflawniadau a chreu ethos dymunol yn yr ysgol.

32. Hyrwyddir Y Cwricwlwm Cymreig yn effeithiol ar draws y cwricwlwm a llwyddir yn dda i ddatblygu hyfedredd dwyieithog y disgyblion.

33. Mae cysylltiadau effeithiol iawn gyda'r rhieni ac mae'r ysgol yn manteisio'n llawn ar adnoddau'r gymuned er mwyn ehangu ac ymestyn cyfleoedd dysgu'r disgyblion. Mae cysylltiadau rhagorol gydag Ysgol Pen-y-Bryn a chydweithio da gydag ysgolion eraill y dalgylch.

34. Rhoddir sylw da i godi ymwybyddiaeth y disgyblion o ddatblygiad cynaliadwy. Mae'r ysgol wrthi'n gweithio tuag at ennill achrediad efydd yr Ysgol Werdd.

35. Mae darpariaeth ragorol ar gyfer datblygu medrau menter y disgyblion. Cânt gyfle i brynu a gwerthu nwyddau ac i gofnodi'r gwariant, yr incwm a'r elw ar daenlen syml.

36. Rhoddir pwyslais addas ar feithrin annibyniaeth y disgyblion fel dysgwyr, ond ychydig o gyfleoedd a gânt i gynllunio a rheoli eu dysgu eu hunain.

37. Mae nodweddion rhagorol yn nhrefniadau gofal a chynhaliaeth yr ysgol. Mae'r ysgol yn gymuned hapus a gofalgar lle mae'r disgyblion yn teimlo y cânt eu gwerthfawrogi a'u cefnogi. Maent yn gyfforddus wrth geisio cyngor a chyfarwyddyd gan y staff.

38. Hyrwyddir datblygiad personol a chymdeithasol y disgyblion yn effeithiol drwy weithgareddau megis yr Ysgol Dina, amser cylch a'r Cyngor Ysgol. Rhoddir statws i lais y disgybl a chaiff anghenion unigolion flaenoriaeth uchel.

39. Mae gweithdrefnau effeithiol i sicrhau fod pob agwedd ar fywyd yr ysgol yn ddiogel. Caiff y disgyblion eu goruchwylio'n ofalus yn ystod oriau'r ysgol.

40. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion gydag anghenion dysgu ychwanegol yn dda gyda nodweddion rhagorol. Mae'r ysgol yn adnabod anghenion ychwanegol unigolion yn gynnar ac yn ymyrryd lle bo angen.

41. Mae nodweddion megis tegwch a chyfleoedd cyfartal i bawb yn elfen gref iawn yn yr ysgol. Mae'r holl ddisgyblion wedi eu hintegreiddio yn llawn i fywyd a gwaith yr ysgol.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

42. Mae arweinyddiaeth frwdfrydig a phwrpasol y pennaeth yn rhoi cyfeiriad clir i ddatblygiad yr ysgol. Caiff ei chefnogi'n dda gan staff gweithgar a llywodraethwyr cydwybodol sydd oll yn gweithio'n effeithiol fel tîm gan rannu'r un disgwyliadau a'r gwerthoedd.

43. Yn sgil gweithredu'r rhaglen Webster Stratton, gwelwyd gwelliant arwyddocaol yn ymagweddau'r disgyblion tuag at ddysgu ac yn safon eu hymddygiad yn gyffredinol.

44. Mae'r llywodraethwyr yn cyflawni eu cyfrifoldebau yn drylwyr. Maent yn adnabod yr ysgol yn dda ac yn cydweithio'n glos gyda'r pennaeth. Cyflawnant eu cyfrifoldebau monitro ac arfarnu yn arbennig o effeithiol.

45. Mae trefniadau hunan-arfarnu cynhwysfawr yn yr ysgol. Mae'r arfarniadau yn drylwyr a threiddgar ac yn nodi'n glir pa agweddau sydd angen sylw pellach.

46. Mae'r Cynllun Datblygu Ysgol yn ddogfen ddefnyddiol ar gyfer rhoi cyfeiriad strategol i waith yr ysgol.

47. Gwneir defnydd effeithiol ac effeithlon o'r holl adnoddau dynol ac ariannol. Mae digon o athrawon gyda chymwysterau addas i addysgu pob agwedd o'r cwricwlwm ac mae cyflenwad da o adnoddau dysgu. Mae adeiladau o ansawdd da ac fe'u defnyddir yn effeithiol gan athrawon a disgyblion.

48. Mae'r rheolaeth gyllidol yn dynn a'r ysgol yn gweithredu'n dda o fewn ei chyllid. Mae'n darparu gwerth da am arian.

49. Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd da wrth roi sylw i'r Materion Allweddol a nodwyd yn Adroddiad y Gwanwyn 2000. Mae'r safonau yn y chwe maes a arolygwyd wedi gwella ers yr arolygiad diwethaf.

Argymhellion

A1: Adeiladu ar y safonau da yn y Gymraeg a cherdd drwy roi sylw i'r diffygion a nodwyd.

A2: Parhau gyda'r ymdrechion presennol i godi lefelau presenoldeb y disgyblion.

A3: Parhau i ddatblygu gallu'r disgyblion i weithio'n annibynnol a chynyddu'r cyfleoedd iddynt gynllunio a rheoli eu dysgu eu hunain.

Mae'r corff llywodraethol yn gyfrifol am ddiwygio ei gynllun datblygu cyfredol i ymgorffori camau gweithredu mewn ymateb i'r argymhellion ymhen 45 diwrnod gwaith o gael yr adroddiad, gan ddangos yr hyn fydd yr ysgol yn ei wneud ynghylch yr argymhellion. Bydd y cynllun hwn, neu grynodeb ohono, yn cael ei ddosbarthu i bob rhiant yn yr ysgol.

Safonau

Cwestiwn allweddol 1: Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?

Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

50. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan-arfarnu.

51. Mae safonau cyflawniad yn y gwersi a arolygwyd fel a ganlyn:

Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
50%	50%	0%	0%	0%

52. Mae safonau cyflawniad plant dan bump oed fel a ganlyn:

Meysydd dysgu	Gradd
Iaith, llythrennedd a chyfathrebu	Gradd 2
Datblygiad personol a chymdeithasol	Gradd 1
Datblygiad mathemategol	Gradd 1
Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd	Gradd 1
Datblygiad creadigol	Gradd 1
Datblygiad corfforol	Gradd 1

53. Mae safonau cyflawniad yn y meysydd dysgu a'r pynciau a arolygwyd fel a ganlyn:

Meysydd dysgu	Cyfnod Allweddol 1
Cymraeg	Gradd 2
Mathemateg	Gradd 1
Technoleg gwybodaeth	Gradd 1
Daearyddiaeth	Gradd 1
Cerddoriaeth	Gradd 2

54. Mae ansawdd cyffredinol y ddarpariaeth addysgol ar gyfer plant dan bump oed yn briodol i'w hanghenion ac mae'r plant yn gwneud cynnydd da tuag at Ganlyniadau Dymunol ar gyfer Dysgu Plant.

55. Mae'r cynnydd a wna'r disgyblion yn ystod eu hamser yn yr ysgol yn rhagorol. Maent yn llwyddo beth bynnag fo'u cefndir cymdeithasol neu ieithyddol gyda'r mwyafrif helaeth ohonynt yn cyrraedd y targedau a bennwyd ar eu cyfer. Gwna'r disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol gynnydd da o fewn eu gallu a'u hoedran.

56. Mae'r safonau a gyflawnir gan blant dan bump oed a disgyblion Cyfnod Allweddol 1 yn y medrau allweddol mewn iaith a chyfathrebu, mathemateg a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu, yn rhagorol.

57. Drwy'r ysgol, mae'r disgyblion yn gwrando'n astud yn y gwersi ac yn mynegi eu syniadau ar lafar yn hyderus. Mae ganddynt afael gadarn iawn o dermau technegol y gwahanol bynciau, defnyddiant eu medrau darllen yn effeithiol er mwyn cywain gwybodaeth a gallant ysgrifennu i nifer o bwrpasau.

58. O'r Dosbarth Derbyn ymlaen, defnyddia'r disgyblion eu medrau rhifedd gyda chywirdeb cynyddol, yn arbennig wrth ymwneud â gweithgareddau ymarferol megis mesur hyd. Maent yn hyderus wrth ddefnyddio adnoddau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu i gefnogi eu dysgu.

59. Mae gallu dwyieithog y disgyblion yn dda. Erbyn diwedd Blwyddyn 2, daw dysgwyr y Gymraeg yn ddefnyddwyr hyderus o'r iaith ac mae'r disgyblion rheini sydd â'r Gymraeg yn famiaith iddynt yn dangos cynydd da yn eu gafael o'r Saesneg.

60. Ar ddiwedd Blwyddyn 2 yn 2005, roedd cyrhaeddiad y disgyblion ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. O'u cymharu ag ysgolion tebyg o ran y ganran o ddisgyblion yn derbyn prydau ysgol di-dâl, roedd perfformiad yr ysgol yn y 25% uchaf.

61. Mae canlyniadau treigl yr ysgol dros gyfnod o dair blynedd yn gyson dda gyda genethod a bechgyn yn perfformio cystal â'i gilydd.

62. Gwna'r disgyblion gynnydd rhagorol yn eu dysgu ac yn eu medrau personol a chymdeithasol. Mae'r mwyafrif helaeth ohonynt yn gweithio ar lefel uchaf eu gallu, yn ymdrechu'n galed yn y gwersi ac yn canolbwyntio'n ddwys ar eu tasgau dros gyfnod estynedig. Defnyddiant eu hamser yn effeithiol a gweithiant yn gynhyrchiol. Maent yn effro i holi a gofyn cwestiynau ac maent yn ymateb yn frwdfrydig i sialensiau newydd. Gallant adalw dysgu blaenorol yn effeithiol a'i ddefnyddio mewn sefyllfaoedd newydd.

63. Mae safonau ymddygiad ym mhob dosbarth yn rhagorol gyda'r disgyblion yn ymddwyn yn gyfrifol ac yn gwrtais ac ystyriol â'i gilydd. Maent yn arddangos graddau uchel o hunanddisgyblaeth ac o hunanreolaeth ac maent yn barod iawn i helpu ei gilydd. Cyfranna hyn yn helaeth tuag at greu amgylchedd dysgu dymunol sy'n rhoi cyfle i bob disgybl roi ei orau i'w waith.

64. Mae'r disgyblion yn cydweithio'n rhwydd gyda'i gilydd wrth iddynt drafod eu tasgau a rhannu adnoddau. Dangosant barch a gofal am eraill a chymerant gyfrifoldeb am eu gweithredoedd a'i gwaith.

65. Mae gallu'r disgyblion i weithio'n annibynnol drwy drefnu gwaith eu hunain, datrys problemau a gwella'u dysgu eu hunain, yn datblygu'n briodol. Gydag arweiniad yr athrawon, gallant arfarnu cryfderau a gwendidau eu gwaith er eu bod yn ansicr wrth awgrymu sut i'w wella.

66. Mae medrau creadigol disgyblion o bob oedran, yn rhagorol. Cynhyrchant waith celf o safon uchel, dangosant ddychymyg byw wrth chwarae rôl a chreant symudiadau a siapiau diddorol mewn gwersi dawns.

67. Mae cyfartaledd presenoldeb disgyblion dros y flwyddyn yn 93%, sydd ychydig yn is na'r canrannau lleol a chenedlaethol. Mae prydlondeb mwyafrif helaeth y disgyblion yn dda er bod cnewyllyn bychan yn cyrraedd yr ysgol ychydig yn hwyr yn y boreau. Cydymffurfia'r ysgol yn llawn â gofynion cofnodi presenoldeb a phrydlondeb disgyblion.

68. Mae ymwybyddiaeth y disgyblion o faterion cyfleoedd cyfartal yn dda. Mae eu gwybodaeth o amrywiaeth mewn cymdeithas ynghyd â'r parch a'r empathi a ddangosant tuag at bobl o gefndir diwylliannol a chrefyddol gwahanol i'w cefndir hwy, yn rhagorol.

Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?

Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

69. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan-arfarnu.

70. Barnwyd ansawdd yr addysgu fel a ganlyn:

Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
52%	48%	0%	0%	0%

71. Gwelwyd addysgu da a rhagorol ym mhob dosbarth ac yn y rhan fwyaf o bynciau. Mae'r perthnasau clos sydd rhwng yr athrawon a'r disgyblion yn effeithio'n gadarnhaol ar gyflawniadau'r disgyblion.

72. Mae gan athrawon wybodaeth drylwyr o'r pynciau a addysgant ac o'r Canlyniadau Dymunol ar gyfer addysgu plant dan bump oed. Cynllunnir y gwersi yn fanwl, adeiladir yn dda ar wybodaeth a dealltwriaeth flaenorol y disgyblion a gofelir bod gweithgareddau addas i ddiwallu anghenion pob disgybl.

73. Darperir lefel uchel o gefnogaeth i ddisgyblion yn y gwersi a chaiff eu gwaith ei fonitro'n ofalus gan yr athrawon.

74. Mae'r cydgynllunio manwl sydd rhwng yr athrawon a'r cymorthyddion yn cyfrannu'n arwyddocaol tuag at ansawdd uchel yr addysgu.

75. Mae'r addysgu yn y sesiynau neilltuo ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol iawn, ac yn eu darparu i gymryd rhan yn llwyddiannus yng ngweithgareddau'r dosbarth cyfan.

76. Pan fo nodweddion rhagorol i'r addysgu, mae cyflwyniadau'r athrawon yn ddiddorol a dychmygus a'r tasgau yn ysgogi'r diddordeb a chymhelliant y disgyblion. Defnyddir adnoddau diddorol, mae'r cwestiynu yn gelfydd a manteisir ar amrywiaeth o strategaethau addysgu. Mae cydbwysedd da rhwng gwaith llafar, ysgrifenedig a gweithgareddau ymarferol, ac mae gan

athrawon ddisgwyliadau uchel o ran cyflawniadau ac ymddygiad. Mae ymroddiad cryf i hyrwyddo iaith raenus ac estynedig.

77. Nid oes diffygion pwysig yn yr addysgu.

78. Mae ansawdd yr asesu'n dda gyda nodweddion rhagorol. Mae gweithdrefnau pendant ar gyfer asesu holl bynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol ac ar gyfer cofnodi cyflawniadau'r disgyblion. Gwneir defnydd effeithiol o'r asesiadau ar gyfer gwella ansawdd yr addysgu a dysgu a symud disgyblion yn eu blaen. Mae cyfundrefn effeithiol ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion unigol a dangos y ffordd ymlaen.

79. Mae trefniadau cynhwysfawr ar gyfer asesu cynnydd plant dan bump. Mae deilliannau'r asesiadau yn rhoi darlun clir o gynnydd pob unigolyn ac yn gymorth wrth flaengynllunio ar eu cyfer.

80. Mae'r portffolios pwnc cynhwysfawr a gynhyrchwyd yn arf effeithiol ar gyfer cysoni barn athrawon a chodi safonau ar draws yr ysgol.

81. Mae'r targedau personol a bennir i bob disgybl yng Nghyfnod Allweddol 1 yn arwain at gyflawniadau uwch ac yn hyrwyddo gallu'r disgyblion i hunanasesu eu gwaith.

82. Mae safon marcio gwaith disgyblion yn dda. Mae sylwadau'r athrawon yn annogol ac yn rhoi arweiniad da i ddisgyblion ar wella eu gwaith.

83. Mae ansawdd adroddiadau blynyddol i rieni'n dda ac yn bodloni'r gofynion statudol. Maent yn amlinellu cyflawniadau a medrau'r disgyblion ym mhob pwnc ynghyd â sylwadau personol perthnasol eraill.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda y mae'r profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?

Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

84. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan-arfarnu.

85. Mae'r ysgol yn ymateb yn dda iawn i anghenion y disgyblion, ac yn cynnig mynediad cyfartal i gwricwlwm eang a chytbwys, sy'n cydymffurfio a'r gofynion cyfreithiol.

86. Mae cynllunio manwl yr athrawon yn sicrhau bod cynnydd a pharhad ym mhob pwnc a bod y profiadau dysgu a ddarperir yn ddiddorol a gwahaniaethol.

87. Darperir cyfleoedd addas i sicrhau bod disgyblion yn ennill y medrau sylfaenol a'r medrau allweddol. Rhoddir pwyslais da ar feithrin iaith raenus ar draws y cwricwlwm ac mae trefn effeithiol ar gyfer darparu sylw ac adnoddau ychwanegol i ddisgyblion sydd â chyrhaeddiad isel yn y medrau sylfaenol.

88. Mae ymrwymiad yr ysgol tuag at wella medrau sylfaenol y rhieni trwy gynlluniau Iaith a Chwarae a chynlluniau Llythrennedd a Rhifedd Teulu yn nodwedd ragorol o'r ddarpariaeth.

89. Mae addysg bersonol a chymdeithasol yn nodwedd ragorol o'r ddarpariaeth gwricwlaidd. Mae'n ymdreiddio drwy'r cwricwlwm ac yn dylanwadu'n gadarnhaol iawn ar ddysgu ac agweddau'r disgyblion.

90. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, a diwylliannol y disgyblion yn rhagorol. Trwy ystod o weithgareddau cwricwlaidd a chyfnodau rheolaidd megis sesiynau addoli ar y cyd, amser cylch a Chyngor Ysgol, caiff y disgyblion gyfleoedd da i ymarfer eu medrau ac i drafod materion sydd o bwys iddynt. Mae'r profiadau hyn yn cyfrannu'n sylweddol at wella eu cyflawniadau a chreu ethos dymunol yn yr ysgol.

91. Darperir nifer helaeth o weithgareddau allgyrsiol i'r disgyblion. Mae canran uchel o'r disgyblion yn elwa'n fawr o fynychu gweithgareddau fel gymnasteg, clwb cyfrifiaduron a chlwb Ffrangeg.

92. Cyfoethogir y cwricwlwm gan amrywiaeth o ymweliadau addysgol a gan ymwelwyr â'r ysgol. Defnyddir y profiadau hyn yn dda i atgyfnerthu gwahanol agweddau o'r cwricwlwm.

93. Mae darpariaeth ragorol ar gyfer datblygu hyfedredd dwyieithog y disgyblion. Cynllunnir yn fwriadus i sicrhau bod dysgwyr y Gymraeg yn ymdopi'n fuan â'r iaith a bod medrau Saesneg pob disgybl yn datblygu'n gynyddol drwy'r cyfnod allweddol. Hyrwyddir Y Cwricwlwm Cymreig yn effeithiol ar draws y cwricwlwm.

94. Mae nodweddion rhagorol yn y cysylltiadau a'r cydweithio sydd rhwng yr ysgol a'r rhieni. Ategwyd hyn gan y rhieni yn yr holiaduron ac yn ystod y cyfarfod cyn-arolygiad gyda'r arolygwyr. Mae'r rhieni yn gefnogol iawn i waith a gweithgareddau'r ysgol a thrwy Gymdeithas Cyfeillion yr Ysgol, maent yn codi arian sylweddol ar gyfer prynu adnoddau dysgu. Trwy nosweithiau cwricwlaidd rheolaidd, caiff y rhieni eu hysbysu'n dda am y datblygiadau addysgol diweddaraf sy'n effeithio ar eu plant.

95. Mae gan yr ysgol drefniadau effeithiol ar gyfer cyfathrebu gyda'r rhieni. Mae cytundeb ffurfiol rhwng y cartref a'r ysgol ac mae Llawlyfr yr ysgol yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol i'r rhieni. Bodlonir yr holl ofynion statudol.

96. Mae'r ysgol yn manteisio'n llawn ar adnoddau'r gymuned er mwyn ehangu ac ymestyn cyfleoedd dysgu'r disgyblion. Cynhelir nifer helaeth o ymweliadau lleol a bydd aelodau o'r gymuned yn dod i'r ysgol i rannu eu profiadau gyda'r disgyblion.

97. Mae'r ysgol yn elwa'n sylweddol o'r cydweithio da sydd rhwng penaethiaid ysgolion cynradd y dalgylch a'r ysgol uwchradd leol. Mae cysylltiadau rhagorol gyda'r ysgol iau leol ac mae hyn yn sicrhau bod dilyniant a pharhad

ym mhrofiadau dysgu'r disgyblion wrth iddynt drosglwyddo o'r naill ysgol i'r llall ar ddiwedd Blwyddyn 2.

98. Mae cysylltiadau addas gyda chyflogwyr. Bydd yr ysgol yn ymweld â mannau gwaith lleol ac mewn gwersi megis daearyddiaeth, yn dysgu am rai o brif ddiwydiannau'r ardal.

99. Mae darpariaeth ragorol ar gyfer datblygu medrau menter y disgyblion. Cânt gyfle i brynu a gwerthu nwyddau ac i gofnodi'r gwariant, yr incwm a'r elw ar daenlen syml.

100. Ceir polisi cyfleoedd cyfartal clir ac fe'i adlewyrchir mewn sawl agwedd o fywyd yr ysgol. Gweithreda'r athrawon mewn modd pendant er mwyn sicrhau fod pob plentyn yn cael yr un cyfleoedd addysgol ac yn cyflawni hyd eithaf eu gallu.

101. Mae'r disgyblion yn dangos ymwybyddiaeth a dealltwriaeth dda o ddatblygiad cynaliadwy lleol a byd-eang. Gwneir hyn trwy ymweliadau, gwaith thema a'r defnydd o system ailgylchu yr ysgol. Mae'r ysgol wrthi'n gweithio tuag at ennill achrediad efydd yr Ysgol Werdd.

102. Mae profiadau dysgu'r disgyblion ar draws y cwricwlwm yn eu galluogi i ennill ystod o fedrau gwerthfawr ar gyfer datblygu agweddau cadarnhaol a medrau dysgu gydol oes. Mae'r rhain yn cynnwys dwyieithrwydd, hyfedredd mewn technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, rhifedd, a medrau personol a chymdeithasol. Rhoddir pwyslais addas ar feithrin annibyniaeth y disgyblion fel dysgwyr ond ychydig o gyfleoedd a gânt i gynllunio a rheoli eu dysgu eu hunain.

Cwestiwn Allweddol 4: Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr?

Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

103. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan-arfarnu.

104. Mae'r ysgol yn cynllunio ac yn rheoli trefniadau gofal a chynhaliaeth yn rhagorol. Pan fo'r angen, gwna'r ysgol ddefnydd effeithiol o wasanaethau'r Awdurdod Addysg Lleol ac asiantaethau perthnasol eraill. Sicrha y staff addysgu a'r staff cynhaliol bod trefniadau'r ysgol yn cael eu gweithredu'n effeithiol.

105. Mae'r ysgol yn cydweithio'n agos ac effeithiol gyda'r rhieni mewn materion sy'n ymwneud ag iechyd a lles disgyblion. Mae'r rhieni'n gwerthfawrogi'r polisi drws agored sy'n rhoi cyfle iddynt ddod i drafod materion gyda'r pennaeth a'r staff.

106. Mae plant newydd yn y dosbarth meithrin yn ymgartrefu'n gyflym ac yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Mae trefniadau da ar gyfer trosglwyddo i Ysgol Pen-y-bryn ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 1.

107. Mae'r gefnogaeth a'r cyfarwyddyd personol a gynigir i ddisgyblion yn rhagorol. Mae'r ysgol yn gymuned hapus a gofalgar lle mae'r disgyblion yn teimlo y cânt eu gwerthfawrogi a'u cefnogi. Maent yn gyfforddus wrth geisio cyngor a chyfarwyddyd gan yr holl staff.

108. Hyrwyddir datblygiad personol a chymdeithasol y disgyblion yn effeithiol drwy weithgareddau megis yr Ysgol Dina, amser cylch a'r Cyngor Ysgol. Rhoddir statws i lais y disgybl a rhoddir blaenoriaeth uchel i anghenion meddyliol, corfforol ac emosiynol yr unigolyn. Mae hon yn nodwedd ragorol o'r ddarpariaeth ac yn cyfrannu'n allweddol tuag at yr ethos teuluol a greuir drwy'r ysgol.

109. Mae trefniadau cadarn ar gyfer monitro presenoldeb a phrydlondeb.

110. Mae gweithdrefnau effeithiol i sicrhau fod pob agwedd ar fywyd yr ysgol yn ddiogel. Cyfyngwyd mynediad i gerbydau ar dir yr ysgol a chafwyd ymgyrch ar y cyd gyda'r rhieni i godi ymwybyddiaeth ynghylch agweddau ar ddiogelwch y ffyrdd. Caiff y disgyblion eu goruchwylio'n ofalus yn ystod amser chwarae ac amser cinio.

111. Mae'r polisïau manwl ar gyfer diogelu plant, cydraddoldeb hiliol, goruchwylio ac addysg rhyw a chânt eu gweithredu'n effeithiol. Mae gweithdrefnau cadarn yn eu lle ar gyfer cynnal asesiadau risg.

112. Mae pob aelod staff yn gyfarwydd â'r trefniadau amddiffyn plant ac yn delio'n briodol a sensitif ag unrhyw bryderon am les personol disgyblion.

113. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion gydag anghenion dysgu ychwanegol yn dda gyda nodweddion rhagorol. Mae'n bodloni gofynion y Còd Ymarfer.

114. Mae'r ysgol yn adnabod anghenion ychwanegol unigolion yn gynnar ac yn ymyrryd lle bo angen. Gwna'r athrawon pob ymdrech i sicrhau bod yr asesu'n gywir a bod darpariaeth effeithiol i bob plentyn.

115. Mae'r gynhaliaeth a ddarperir yn y dosbarthiadau yn cydweddu'n dda ag anghenion y dysgwyr. Cyfranna'r cymorthyddion dysgu yn sylweddol tuag at hyn.

116. Darperir cynhaliaeth mewn llythrennedd a rhifedd bob bore i grwpiau bach o ddisgyblion trwy sesiynau neilltuo. Mae'r cynllunio a'r addysgu yn y sesiynau hyn yn nodweddion rhagorol o'r ddarpariaeth.

117. Mae'r Cynlluniau Addysgu Unigol a lunnir ar gyfer pob disgybl gydag anghenion dysgu ychwanegol o ansawdd da ac yn rhoi arweiniad clir i'r athrawon dosbarth a'r cymorthyddion dysgu.

118. Mae partneriaeth glos gyda'r rhieni a chânt wybodaeth reolaidd am y targedau a osodir i'w plant a'u datblygiad cyffredinol. Mae gan yr ysgol gysylltiadau da gydag asiantaethau allanol.

119. Mae'r cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol yn rhoi cefnogaeth effeithiol i'w chydweithwyr yn y maes. Nodwedd ragorol o'r gwaith yw'r monitro gofalus a'r cofnodion trylwyr a gedwir ar gyfer gwella cyflawniadau'r disgyblion.

120. Mae nodweddion megis tegwch a chyfleoedd cyfartal i bawb yn elfen gref iawn yn yr ysgol. Mae'r bechgyn a'r merched yn cael eu trin yn gyfartal. Mae'r holl ddisgyblion wedi eu hintegreiddio yn llawn i waith a bywyd yr ysgol. Cefnogir y farn hon gan y disgyblion yn ystod eu trafodaethau gyda'r arolygwyr.

121. Mae'r ysgol wedi ymateb yn effeithiol i sicrhau bod disgyblion sydd ag anableddau corfforol yn cael eu trin yr un mor ffafriol â disgyblion sy'n abl yn gorfforol, o safbwynt y cyfleoedd a'r gynhaliaeth a gânt. Nid yw pob rhan o'r adeilad yn addas i'r rhai ag anableddau corfforol.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

Cwestiwn Allweddol 5: Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth strategol?

Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

122. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan-arfarnu.

123. Mae arweinyddiaeth frwdfrydig a phwrpasol y pennaeth yn rhoi cyfeiriad clir i ddatblygiad yr ysgol ac yn effeithio'n uniongyrchol ar ansawdd y ddarpariaeth a'r safonau addysgol mae'r disgyblion yn cyflawni. Caiff ei chefnogi'n dda gan staff gweithgar a llywodraethwyr cydwybodol sydd oll yn gweithio'n effeithiol fel tîm gan rannu'r un disgwyliadau a'r gwerthoedd ynghylch dysgu, ymddygiad a chydberthnasau.

124. Cyflawna'r staff eu cyfrifoldebau arweinyddiaeth a rheolaeth yn drylwyr iawn. Cymerant rôl flaenllaw fel arweinyddion cwricwlaidd a darparant gefnogaeth dda i'w cyd-athrawon.

125. Mae polisïau rheolaethol clir sy'n cael eu gweithredu'n effeithiol gan staff a Llywodraethwyr. Hyrwyddir cyfleoedd cyfartal i bawb.

126. Mae hon yn ysgol flaengar sy'n rhoi lle amlwg yn ei rhaglen waith i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Mae wedi ennill ail-achrediad Marc Safon Yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol ac wedi cynnal nifer o gynlluniau ar gyfer codi safonau llythrennedd a rhifedd y disgyblion a'r rhieni. Mae wrthi'n gweithio tuag at achrediad cyntaf Yr Ysgol Iach a gwobr efydd yr Ysgol Werdd.

127. Bu'r ysgol yn flaenllaw iawn wrth ddatblygu rhaglen Webster Stratton. Yn sgil gweithredu'r rhaglen, gwelwyd gwelliant arwyddocaol yn ymagweddau'r disgyblion tuag at ddysgu ac yn eu hymddygiad yn gyffredinol.

128. Mae'r trefniadau lleihau llwyth gwaith athrawon a sicrhau amser digyswllt iddynt ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu, wedi'u cynllunio'n fanwl ac maent yn cael effaith gadarnhaol ar safonau cyflawniad disgyblion ac ar effeithiolrwydd yr addysgu.

129. Mae trefniadau manwl ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion a gosod targedau ar eu cyfer ar ddiwedd y cyfnod allweddol. Mae'r targedau'n uchelgeisiol ac yn rhoi nod clir i'r athrawon a'r disgyblion anelu tuag atynt.

130. Mae trefniadau manwl ar gyfer gweithredu gofynion Rheoli Perfformiad. Caiff perfformiad unigolion ei fonitro'n gyson, nodir targedau gwelliant clir ar eu cyfer a chytunir ar unrhyw anghenion hyfforddiant pellach.

131. Mae'r llywodraethwyr yn cyflawni eu cyfrifoldebau yn dda. Maent yn adnabod yr ysgol yn dda ac yn cydweithio'n glos gyda'r pennaeth er mwyn rhoi cyfeiriad strategol i ddatblygiad yr ysgol. Mae ganddynt wybodaeth drylwyr am berfformiad yr ysgol ac maent yn ymwybodol o bwysigrwydd eu rôl fel cyfaill beirniadol i'r pennaeth. Cyflawnant eu cyfrifoldebau monitro ac arfarnu yn arbennig o effeithiol.

132. Maent yn cyflawni eu cyfrifoldebau cyfreithiol yn llawn.

Cwestiwn Allweddol 6: Pa mor dda y mae'r arweinwyr a'r rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?

Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

133. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan-arfarnu.

134. Mae'r ysgol yn gwybod yn dda am ei pherfformiad ac yn defnyddio'r wybodaeth yn effeithiol er mwyn hyrwyddo gwelliannau pellach. Roedd barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan-arfarnu yn cyd-fynd â barn y tîm arolygu ym mhob un o'r saith Cwestiwn Allweddol.

135. Mae trefniadau hunan-arfarnu'r ysgol yn gynhwysfawr ac effeithiol. Maent yn tynnu ar dystiolaeth uniongyrchol o nifer o ffynonellau, megis safonau gwaith disgyblion ac ansawdd yr addysgu a'r dysgu. Defnyddir yr wybodaeth yn dda i wneud gwelliannau pellach.

136. Chwaraeir rôl allweddol yn y trefniadau hunan-arfarnu gan yr arweinwyr cwricwlaidd. Mae'r arfarniadau a ymgymerir ganddynt yn drylwyr a threiddgar ac yn nodi'n glir pa agweddau sydd angen sylw pellach. Byddant yn adrodd yn ysgrifenedig i'r corff llywodraethu ar ddeilliannau'r arfarniadau.

137. Gwneir defnydd effeithiol o ddata asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol ac o brofion safonedig er mwyn darparu gwybodaeth gymharol am berfformiad yr ysgol.

138. Trwy'r Cyngor Ysgol, rhoddir ystyriaeth ddilys i farn disgyblion a chyweinir safbwyntiau'r rhieni drwy ddanfon holiadur i bob cartref.

139. Mae'r adroddiad hunan-arfarnu cryno a gyflwynwyd cyn yr arolygiad yn glir a darllenadwy ac o ansawdd da. Mae'n cynnwys elfennau arfarnol cryf ac mae ffocws clir ar safonau cyflawniad disgyblion.

140. Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd da wrth roi sylw i'r Materion Allweddol a nodwyd yn Adroddiad y Gwanwyn 2000. Mae'r safonau yn y chwe maes a arolygwyd yn 2000 wedi gwella ers yr arolygiad diwethaf, mae ansawdd cynllunio cwricwlaidd yr ysgol bellach yn dda ac mae canran llawer iawn uwch o addysgu da a rhagorol. Erbyn hyn, mae'r llywodraethwyr yn cyflawni eu holl gyfrifoldebau yn drylwyr ac mae eu hadroddiad blynyddol i'r rhieni yn cwrdd â'r gofynion statudol.

141. Gwna'r ysgol ddefnydd effeithiol o'r wybodaeth a gesglir trwy'r trefniadau hunan-arfarnu ar gyfer pennu blaenoriaethau yn y Cynllun Datblygu Ysgol. Mae'r cynllun yn cynnwys camau gweithredu clir ynghyd â dangosyddion llwyddiant ac mae'n dyrannu adnoddau priodol ar gyfer cefnogi'r blaenoriaethau. Yn ystod y flwyddyn ysgol, cynhelir arfarniad manwl o effaith y Cynllun Datblygu ar safonau cyflawniad ac ar y ddarpariaeth addysgol.

Cwestiwn Allweddol 7: Pa mor effeithlon yw'r arweinwyr a'r rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?

Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

142. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan-arfarnu.

143. Mae digon o athrawon gyda chymwysterau addas i addysgu pob agwedd o'r cwricwlwm. Defnyddir arbenigeddau'r staff yn dda wrth gyfnewid dosbarthiadau, a rhennir cyfrifoldebau am agweddau a phynciau yn deg rhwng athrawon.

144. Gwelir effaith fuddiol hyfforddiant mewn swydd ar agweddau o'r dysgu a'r addysgu. Mae datblygiad proffesiynol athrawon wedi'i berthnasu'n agos i'r blaenoriaethau a nodir yn y Cynllun Datblygu Ysgol.

145. Gwneir defnydd effeithiol ac effeithlon o'r holl adnoddau dynol. Gweithia'r gweinyddesau meithrin a'r cymorthyddion dysgu yn effeithiol iawn yn y dosbarthiadau i hyrwyddo cynnydd y disgyblion dan eu gofal.

146. Mae'r arfer o gyflogi athrawes gydag arbenigedd mewn cerddoriaeth i ryddhau athrawon ar gyfer eu cyfnod cynllunio, paratoi ac asesu, yn rhoi gwerth da am arian ac yn arwain at safonau uwch.

147. Mae'r adnoddau dysgu o ansawdd da ac wedi'u lleoli'n hwylus ar gyfer y disgyblion. Maent yn sicrhau bod mynediad llawn i ddisgyblion i holl bynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol.

148. Mae'r ychwanegiadau a'r addasiadau a wnaed i'r adeilad yn ddiweddar wedi cynyddu'r gofod ar gyfer dysgu ac addysgu yn sylweddol ac wedi sicrhau gwell amgylchedd gwaith i'r disgyblion. Mae adeiladau o ansawdd da ac fe'u defnyddir yn effeithiol gan athrawon a disgyblion.

149. Mae'r ystafelloedd dosbarth ac ardaloedd eraill yn groesawgar gyda'r arddangosfeydd chwaethus a diddorol o waith disgyblion. Maent yn adnodd dysgu ac addysgu gwerthfawr i'r disgyblion a'r athrawon.

150. Mae'r rheolaeth gyllidol yn dynn a'r ysgol yn gweithredu'n dda o fewn ei chyllid. Defnyddir y cynllun datblygu ysgol fel arf i gynllunio'n gyllidol ar gyfer y dyfodol ac mae'r pennaeth a'r corff llywodraethol yn monitro gwariant yn effeithiol iawn. Mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian.

Safonau a gyflawnir mewn pynciau a meysydd dysgu

Dan bump oed

Medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu

Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Nodweddion da

151. Mae nifer dda o'r plant yn rhoi atebion clir i gwestiynau ac yn defnyddio brawddegau llawn wrth fynegi eu syniadau, chwarae rôl neu wrth siarad gyda'u cyfoedion. Mae eu medrau gwrando da yn eu galluogi i wneud eu tasgau yn llwyddiannus.

152. Maent yn adnabod cymeriadau mewn llyfrau, yn gwneud defnydd da o gliwiau o luniau ac yn gallu ailadrodd storïau mewn manylder priodol. Mae nifer fach yn ddarllenwyr hyfedr.

153. O'r dechrau cyntaf, mae plant yn ymwneud ag ystod eang o weithgareddau marcio i feithrin cydlynedd llaw a llygad. Erbyn y Dosbarth Derbyn, maent yn ffurfio'u llythrennau'n gywir gyda nifer dda ohonynt yn ysgrifennu eu henwau yn annibynnol.

Diffygion

154. Mae safonau llafaredd yn anwastad gyda lleiafrif o blant yn cael anhawster wrth geisio mynegi eu syniadau yn glir.

Datblygiad personol a chymdeithasol

Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

Nodweddion rhagorol

155. Mae plant meithrin a derbyn yn gwbl hyderus o fewn y dosbarth ac yn canolbwyntio am gyfnodau cynyddol wrth gymryd rhan yn yr amrywiol weithgareddau. Maent yn ymddwyn yn dda ac yn cwblhau eu gwaith gyda brwdfrydedd a dealltwriaeth gadarn. Yn ystod sesiynau 'Ysgol Dina,' gyd-berthynasant yn dda a thrafodant eu teimladau'n rhwydd.

Nodweddion da

156. Mae'r plant yn gweithio a chyd-chwarae yn gyfeillgar. Maent yn barod iawn i rannu a chymryd eu tro wrth ddefnyddio adnoddau ac maent yn gwrando'n ofalus ar ei gilydd.

Diffygion

157. Nid oes diffygion pwysig.

Datblygiad mathemategol

Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

Nodweddion rhagorol

158. Mae plant yn defnyddio mathemateg ymarferol yn llwyddiannus iawn fel rhan integredig o nifer o weithgareddau, megis chwarae yn y tŷ bach twt, chwarae gydag offer adeiladu ac arbrofi gyda thywod a dŵr.

159. Mae ymwybyddiaeth rhif nifer helaeth o'r plant yn rhagorol. Maent yn cyfrif yn hyderus hyd at o leiaf 20, ac yn adnabod, ffurfio a gweithio'n hyderus gyda'r rhifau hyn, gyda'r goreuon yn ymdrin â rhifau mwy. Maent yn deall y cysyniad o adio a thynnu yn ysgrifenedig. Gallant roi'r rhifau yn eu trefn gywir yn chwim.

Nodweddion da

160. Mae adnabyddiaeth y plant o siapiau dau a thri-dimensiwn sylfaenol, yn gadarn. Defnyddiant iaith fathemategol briodol wrth gyfatebu gwrthrychau yn ôl eu maint a'u lliw a'u siâp. Dônt i ddeall pwrpas a gwerth arian yn dda. Maent yn gadarn yn eu dealltwriaeth o gysyniadau megis 'yn fwy na', 'yn llai na', 'hiraf' a'r 'talaf'.

Diffygion

161. Nid oes diffygion pwysig.

Gwybodaeth a dealltwriaeth y byd

Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

Nodweddion rhagorol

162. Trwy nifer o brofiadau ysgogol pwrpasol, daw'r plant i wybod yn dda iawn am ddillad pwrpasol, sut i'w golchi, a sut i wisgo'n addas ar gyfer gwahanol amodau tywydd. Mae'r cyd-drafod a'r rhannu profiadau brwd sy'n dilyn y

gweithgareddau hyn yn cyfrannu'n sylweddol tuag at yr wybodaeth drylwyr o'u hardal sydd gan y plant.

Nodweddion da

163. Mae gwybodaeth dda gan y plant am y newidiadau ynddynt hwy eu hunain ers cyfnod eu babandod. Mae ganddynt wybodaeth gadarn am enwau a nodweddion anifeiliaid sy'n byw yn y jyngl, ac anifeiliaid sy'n byw ar y fferm. Gallant esbonio cylch bywyd y pili-pala ac mae ganddynt wybodaeth dda o'r hyn sy'n digwydd i goed ac anifeiliaid yn ystod tymor yr Hydref. Yn eu harbrofion gwyddonol, gallant wahaniaethu rhwng gwrthrychau pren, plastig a metel. Maent yn gwybod enwau gwahanol rannau'r blodyn a deallant fod angen plannu hadau er mwyn i flodau dyfu; caiff pob un y cyfle i wneud hyn yn ymarferol.

164. Maent yn defnyddio'r llygoden yn hyderus wrth symud delweddau ar y sgrin.

Diffygion

165. Nid oes diffygion pwysig.

Datblygiad corfforol

Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

Nodweddion rhagorol

166. Mae gwaith corfforol y plant mewn gwersi addysg gorfforol, yn rhagorol. Maent yn dilyn cyfarwyddiadau ac yn symud yn hyderus gyda rheolaeth gynyddol. Mewn sesiynau dawns, ymdrechant yn effeithiol iawn i efelychu symudiadau'r athrawes, defnyddiant eu cyrff yn egniol ac ymatebant yn greadigol i gerddoriaeth.

Nodweddion da

167. Mae'r plant yn defnyddio'u medrau corfforol mân yn fedrus iawn wrth ymdrin ag offer priodol. Pan fyddant yn chwarae gyda'r teganau mawr, arddangosant reolaeth dda o'u medrau corfforol mawr, megis dringo, pedlo, gwthio a thynnu.

168. Mae ganddynt reolaeth gynyddol ar offer ysgrifennu wrth iddynt ymarfer patrymau llythrennau gyda phaent trwchus a thywod. Wrth chwarae ar y buarth, maent yn arddangos ymwybyddiaeth dda o ddiogelwch ac yn gwneud defnydd synhwyrol o ofod.

Diffygion

169. Nid oes diffygion pwysig.

Datblygiad creadigol

Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

Nodweddion rhagorol

170. Mae'r plant yn canu ystod o ganeuon addas i'w hoedran o'r cof ac yn geirio'n glir gan gynhyrchu sain swynol. Deallant y gwahaniaeth rhwng cryf a thawel wrth berfformio.

171. Enwant nifer dda o offerynnau a sylweddolant y gellir creu gwahanol effeithiau wrth eu chwarae'n drwm neu'n ysgafn. Mae'r mwyafrif yn cadw curiad yn dda iawn wrth ganu ac wrth chwarae offerynnau.

Nodweddion da

172. Defnyddia'r plant eu dychymyg yn dda wrth iddynt chwarae rôl mewn gwahanol sefyllfaoedd. Maent yn gweithio'n hyderus gyda phaent a chyfryngau eraill. Cynhyrchwyd gwaith hynod o drawiadol wrth beintio ar sidan ac wrth efelychu gwaith patrymog arlunydd enwog.

Diffygion

173. Nid oes diffygion pwysig.

Cymraeg

Cyfnod Allweddol 1: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Nodweddion rhagorol

174. Mae safonau llafaredd y disgyblion yn dda gyda nodweddion rhagorol. Mae mwyafrif da o'r disgyblion yn defnyddio iaith ddisgrifiadol gyfoethog wrth ymdrin ag agweddau penodol o'u themâu. Mewn sefyllfa ddosbarth ac wrth fynd ati i holi ei gilydd yn barau, siaradant yn rhwydd a graenus. Darllenant waith eu hunain yn glir a hyderus.

Nodweddion da

175. Mae disgyblion yn gwrando'n astud ar ei gilydd ac ar eu hathrawon. Dangosant ddealltwriaeth dda drwy eu parodrwydd i ateb a gofyn cwestiynau a dilyn cyfarwyddiadau. Sgwrsiant am eu gwaith a'u profiadau yn frwdfrydig gyda'u cymheiriaid ac oedolion. Daw'r dysgwyr i ddeall ac i ddefnyddio'r Gymraeg yn dda mewn byr amser.

176. Mae cynnydd amlwg yn ysgrifennu disgyblion yn ystod Cyfnod Allweddol 1. Mae'r plant hŷn â gafael gadarn ar atalnodi sylfaenol ac maent yn amrywio ac ymestyn brawddegau. Maent yn sillafu geiriau cyfarwydd yn gywir, a nifer dda ohonynt yn ysgrifennu darnau fel storïau a deialogau, yn estynedig a diddorol.

177. Gwna'r disgyblion gynnydd da yn eu medrau darllen ac maent yn defnyddio strategaethau addas i ddarllen testunau anghyfarwydd. Mae'r mwyafrif helaeth yn darllen gyda dealltwriaeth a mynegiant priodol, yn ôl eu hoed a'u gallu. Wrth gyd-ddarllen a thrafod, soniant gyda diddordeb am y digwyddiadau a'r cymeriadau.

Diffygion

178. Nid oes gan nifer fach o ddisgyblion fynegiant a rhuglder priodol wrth ddarllen.

Mathemateg

Cyfnod Allweddol 1: Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

Nodweddion rhagorol

179. Mae'r disgyblion yn trin rhif yn hyderus iawn ar bapur ac yn y pen ac mae nifer dda ohonynt yn gallu darllen, ysgrifennu a threfnu rhifau cyfain hyd at 1000. Gallant adalw ffeithiau adio a thynnu hyd at 20 yn gyflym.

180. Maent yn dewis a defnyddio amrywiaeth dda o strategaethau i ddatrys problemau yn y pen gan egluro'u dull o weithio yn glir ac mewn iaith fathemategol briodol.

181. Mae gan ddisgyblion Blwyddyn 2 ddealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd manwl gywirdeb wrth fesur hyd gwrthrychau.

Nodweddion da

182. Mae dealltwriaeth y disgyblion o fesurau ansafonol a safonol yn dda. Gwnânt amcangyfrif synhwyrol o faint gwrthrychau a defnyddiant ffon fesur yn fedrus wrth wneud mesuriadau manwl. Gallant enwi a disgrifio priodweddau siapau dau a thri dimensiwn yn hyderus a defnyddiant ystod briodol o raffiau a thablau wrth ymdrin â data.

Diffygion

183. Nid oes diffygion pwysig.

Technoleg gwybodaeth

Cyfnod Allweddol 1: Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

Nodweddion rhagorol

184. Mae nifer helaeth o'r disgyblion yn defnyddio offer a meddalwedd technoleg gwybodaeth megis crwban llawr a chamera digidol, yn fedrus ac yn hyderus i nifer o bwrpasau. Dônt yn fwyfwy annibynnol wrth ddewis a defnyddio technoleg gwybodaeth.

185. Gwnânt ddefnydd pwrpasol o'r e-bost ar gyfer anfon negeseuon a lluniau i ysgol arall.

Nodweddion da

186. Mae'r disgyblion yn llunio darnau o waith ysgrifenedig yn annibynnol ar y sgrin gan addasu'r testun yn ôl y gofyn. Gallant arbed gwaith, ei adfer a'i addasu cyn ei argraffu yn annibynnol.

187. Dangosant feistrolaeth dda ar lygoden er mwyn symud delweddau ar y sgrin. Defnyddiant becynnau arlunio yn effeithiol i greu lluniau a phatrymau celfydd iawn a lluniant amrywiaeth da o raffiau. Gallant reoli a chyfarwyddo'r cyrchwr ar y sgrin yn effeithiol.

Diffygion
188. Nid oes diffygion pwysig.

Daearyddiaeth

Cyfnod Allweddol 1: Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

Nodweddion rhagorol
189. Mae gan ddisgyblion afael gadarn iawn o dermau daearyddol ac fe'u defnyddiant yn fedrus i ddisgrifio ac enwi nodweddion daearyddol eu hardal.

190. Mae gan y disgyblion wybodaeth drylwyr iawn am nodweddion daearyddol eu hardal.

191. Cyflawnir gwaith rhagorol wrth iddynt astudio rhan arall o Gymru sy'n cyferbynnu ag ardal yr ysgol. Gallant drafod mewn manylder yr elfennau tebyg a'r rhai gwahanol yn y ddwy ardal.

192. Defnyddiant atlasau a globau yn effeithiol iawn i ddynodi nodweddion daearyddol a ffisegol gwledydd a chyfandiroedd sydd y tu allan i'w profiadau personol.

Nodweddion da
193. Mae'r disgyblion yn ymdrin yn hyderus ag ystod eang o fapiau a ffotograffau, mae ganddynt ddealltwriaeth dda o ystyr symbolau ar fap a defnyddiant gyfesurynnau yn gywir i nodi lleoliadau ar grid.

194. Maent yn trafod y gwahaniaeth rhwng nodweddion dynol a ffisegol yn ddeallus iawn gan ddisgrifio mewn manylder effaith y nodweddion hyn ar yr amgylchedd. Maent yn mynegi barn am eu hardal leol ac yn cynnig syniadau ar sut i'w wella.

Diffygion
195. Nid oes diffygion pwysig.

Cerddoriaeth

Cyfnod Allweddol 1: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Nodweddion da
196. Mae'r disgyblion yn canu'n swynol, yn ynganu'n glir, ac yn arddangos rheolaeth dda ar anadlu, dynameg a thraw. Mae eu hymwybyddiaeth o rythm yn dda.

197. Maent yn gwybod enwau ystod eang o offerynnau traw a di-draw, gallant ddisgrifio'r synau a wnânt a dewis offerynnau addas i greu effeithiau sŵn gwahanol.

198. Erbyn Blwyddyn 2, gall y disgyblion gyfansoddi darn syml o gerddoriaeth yn nodweddu 'blin' a 'thrist' gan ddefnyddio rhaglen bwrpasol ar y bwrdd gwyn rhyngweithiol. Maent yn creu tôn gron syml lleisiol a gallant lunio patrymau cerddorol trwy ddefnyddio nodau syml ar farrau clych a glockenspiel.

199. Maent yn gwrando ar gerddoriaeth eu hunain, cerddoriaeth gan awduron a chantorion o Gymru a chyfansoddwyr enwog ac yn mynegi barn. Maent yn disgrifio a chymharu nodweddion y gerddoriaeth a glywant gan ddefnyddio termau a geirfa gerddorol yn briodol.

Diffygion

200. Ar adegau, mae'r gwaith a gyflawnir gan y disgyblion ar lefel rhy syml.

Ymateb yr ysgol i'r arolygiad

Y mae staff a llywodraethwyr Ysgol Abercaseg yn ymfalchïo yng nghanlyniadau'r arolygiad sy'n adlewyrchu'r gwaith ardderchog a wneir gan yr ysgol.

Mae barnau a sylwadau'r tîm yn cyd-fynd â'r graddau a osodwyd gan yr ysgol i'r saith cwestiwn allweddol. Roedd yr arolygiad yn eang, yn fanwl a chymerwyd gofal i gyrraedd barn gytbwys a chytûn a rhoddwyd amser i gadarnhau barnau lle bu angen.

Teimlir i'r ysgol dderbyn arolygiad teg ac adeiladol o ran sylwadau ac argymhellion. Sicrhawyd rhan weithredol i'r ysgol o fewn y broses gan wneud defnydd llawn o rôl yr enwebai. Trwy ddarparu hunan werthusiad sy'n cael ei ddilysu yn gyson yn ystod yr arolygiad, sicrheir fod gan yr ysgol offeryn effeithiol ar gyfer mesur ei hun o flwyddyn i flwyddyn.

Canmolwyd ymddygiad y plant, y gofal a'r gynhaliaeth maent yn ei dderbyn a chydnabyddir medrau'r athrawon, talentau'r cymorthyddion dysgu ac ymroddiad y llywodraethwyr. Cydnabyddir hefyd ragoriaeth y cynllunio a'r asesu ac ymfalchïwn yn fawr iawn y safonau uchel yn y Blynyddoedd Cynnar a Chyfnod Allweddol 1.

Rydym yn falch iawn o'n plant, eu hymdrechion a'u llwyddiannau ymhob agwedd o waith yr ysgol.

Atodiad A

Gwybodaeth sylfaenol am yr ysgol

Enw'r ysgol	Ysgol Abercaseg
Math o ysgol	Meithrin a Babanod
Ystod oedran y disgyblion	4-7 oed
Cyfeiriad yr ysgol	Bethesda, Gwynedd.
Cod post	LL55 3PL
Rhif ffôn	01248 600194

Pennaeth	Mrs Olwen Green
Dyddiad penodi	Ionawr 2000
Cadeirydd y llywodraethwyr	Mr Neville Hughes
Arolygydd cofrestredig	Wil Williams
Dyddiadau'r arolygiad	27 Chwefror – 1 Mawrth, 2006

Atodiad B

Data a dangosyddion ysgol

Nifer y disgyblion ym mhob grŵp blwyddyn					
Grŵp blwyddyn	M (call)	D	B1	B2	Cyfanswm
Nifer y disgyblion	16	43	29	34	122

Cyfanswm nifer yr athrawon			
	Amser llawn	Rhan-amser	Cyfwerth ag amser llawn (call)
Nifer yr athrawon	6	2	7

Gwybodaeth staffio	
Cymhareb disgybl: athro (call) (ac eithrio dosbarthiadau meithrin ac arbennig)	20:1
Cymhareb disgybl: oedolyn (call) mewn dosbarthiadau meithrin	16:1
Cyfartaledd maint dosbarth, ac eithrio dosbarthiadau meithrin ac arbennig	20:1
Cymhareb athro (call): dosbarth	1:1

Canran presenoldeb ar gyfer y tri thymor cyflawn cyn yr arolygiad			
Tymor	M	D	Gweddill yr ysgol
Gwanwyn 2005	88.4	92.3	92.4
Haf 2005	78	91.2	93.2
Hydref 2005	84	93	94.3

Canran y disgyblion gyda'r hawl i brydau ysgol am ddim	28%
Nifer y disgyblion wedi'u gwahardd yn ystod y 12 mis cyn yr arolygiad	0

Atodiad C

Canlyniadau Asesiadau CA1 y Cwricwlwm Cenedlaethol: 2005			Nifer y disgyblion yn B2		42		
Canran y disgyblion ar bob lefel							
			D	W	1	2	3
Cymraeg	Asesiad Athro	Ysgol			2	86	12
		Cenedlaethol		2	10	63	25
Cymraeg: llafaredd	Asesiad Athro	Ysgol				88	12
		Cenedlaethol	1	2	11	63	23
Cymraeg: darllen	Asesiad Athro	Ysgol		2	7	79	12
		Cenedlaethol	1	2	16	59	12
Cymraeg: ysgrifennu	Asesiad Athro	Ysgol		2	12	74	12
		Cenedlaethol	1	3	19	66	11
Mathemateg	Asesiad Athro	Ysgol			9	77	14
		Cenedlaethol		2	11	63	24
Gwyddoniaeth	Asesiad Athro	Ysgol			2	68	30
		Cenedlaethol		2	10	65	23

Canran y disgyblion yn cyrraedd o leiaf lefel 2 mewn mathemateg, gwyddoniaeth a Saesneg neu Gymraeg (iaith gyntaf) yn ôl asesiad athro			
Yn yr ysgol	91%	Yng Nghymru	80%

D Disgyblion sydd wedi'u datgymhwyso o'r trefniadau statudol
W Disgyblion sy'n gweithio tuag at lefel 1

Atodiad Ch

Sail tystiolaeth yr arolygiad

Treuliodd dri arolygydd gyfanswm o saith niwrnod arolygydd yn yr ysgol, a chyfarfod fel tîm cyn yr arolygiad.

Ymwelodd yr arolygwyr hyn â:
- dau ddeg a saith o wersi neu wersi rhannol;
- phob dosbarth;
- addoli ar y cyd; ac
- Ystod o weithgareddau allgyrsiol.

Cafodd aelodau o'r tîm arolygu gyfarfodydd gyda:
- staff, llywodraethwyr a rhieni cyn i'r arolygiad ddechrau; ac
- uwch reolwyr, athrawon, staff cymorth a staff gweinyddol a grwpiau o ddisgyblion yn ystod yr arolygiad.

Bu'r tîm hefyd yn ystyried:
- adroddiad hunan-arfarnu'r ysgol;
- saith deg o ymatebion i holiadur rieni;
- dogfennaeth gynhwysfawr a ddarparwyd gan yr ysgol cyn ac yn ystod yr arolygiad; ac
- ystod eang o waith disgyblion yn y gorffennol a heddiw.

Cafodd y tîm arolygu gyfarfodydd gyda'r staff a'r llywodraethwyr ar ôl yr arolygiad.

Atodiad D

Cyfansoddiad a chyfrifoldebau'r tîm arolygu

Arolygydd	**Math**	Agweddau	**Pynciau/meysydd dysgu**
Mr Wil Williams	A Cof	Cyd-destun; Crynodeb Argymhellion; Atodiadau Cwestiynau allweddol 1;5;6 a 7	Mathemateg, Technoleg gwybodaeth Daearyddiaeth
Ms Lisa J Davies	Tîm	Cwestiynau allweddol 2;3 a 4	Dan 5, Cymraeg, cerddoriaeth
Mr Wil Owen	Lleyg	Cyfrannu at gwestiynau allweddol 1; 3; 4 a 7	
Mrs Ann Jones		Asesydd cymheiriaid	
Mrs Olwen Green		Enwebai	

Contractwr: Arolygiadau Deheubarth Inspections; Afallon; Heol Llandeilo; Gorslas; Llanelli; SA14 7LU.

Cydnabyddiaeth
Hoffai'r arolygwyr a fu'n ymweld â'r ysgol ddiolch i'r llywodraethwyr, i'r pennaeth a'r staff, am y cydweithrediad a'r cwrteisi a roddwyd iddynt yn ystod yr arolygiad.